

## Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

**Pa arloesiadau (gan gynnwys dychwelyd i ymarfer) a fyddai'n helpu i ddenu, recriwtio neu gadw staff clinigol y GIG? Map tystiolaeth gyflym (REM).**

**Rhif yr adroddiad – REM 00028 (Ebrill 2022)**

### Manylion Map Tystiolaeth Gyflym

**Cynhaliwyd yr adolygiad gan:**

Ganolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

**Tîm Adolygu:**

Deborah Edwards, Judit Csontos, Elizabeth Gillen, Judith Carrier

**Cyflwynwyd yr adolygiad i'r WCEC ar:**

4 Chwefror 2022

**Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:**

22 Chwefror 2022

**Cyhoeddwyd adroddiad Map Tystiolaeth Gyflym gan y WCEC:**

Mai 2022

**Tîm y WCEC:**

Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis, Rebecca-Jane Law, Micaela Gal a Jane Greenwell yn ymwneud â drafftio Crynodeb o'r Prif Bwyntiau, adolygu a golygu

**Dylid enwi'r adolygiad hwn fel a ganlyn:**

REM00028. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Map tystiolaeth gyflym o ba arloesiadau fyddai'n helpu i ddenu, recriwtio neu gadw staff clinigol y GIG. Ebrill 2022.

**Ymwadiad:** Y farn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn yw barn yr awduron, nid barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.

# Pa arloesiadau (gan gynnwys dychwelyd i ymarfer) a fyddai'n helpu i ddenu, recriwtio neu gadw staff clinigol y GIG? Map tystiolaeth gyflym.

Rhif yr adroddiad – REM00028 (Mai 2022)

## CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

### Beth yw Mapiau Tystiolaeth Gyflym (REM)?

Mae ein Mapiau Tystiolaeth Gyflym (REM) yn defnyddio dulliau adolygu mapio neu gwmpasu systematig talfyredig i roi disgrifiad o natur, nodweddion a maint y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer maes polisi neu gwestiwn ymchwil penodol. Maent wedi'u seilio'n bennaf ar asesu crynodebau ac yn ymgorffori protocol a-priori, chwilio systematig, sgrinio, ac echdynnu'r data lleiaf posibl. Weithiau gallant gynnwys arfarniad beirniadol, ond ni chynhelir synthesis tystiolaeth. Rhoddir blaenoriaeth, pan fo hynny'n ymarferol, i astudiaethau sy'n cynrychioli synthesis tystiolaeth cadarn. Fe'u cynlluniwyd a'u defnyddio'n bennaf i **glustnodi pwnc sylweddol ar gyfer adolygiad cyflym, ac adnabod bylchau allweddol yn y sylfaen dystiolaeth**. (Noder. Nid yw adolygiadau cwmpasu yn addas i gefnogi datblygiad polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan nad ydynt yn cynnwys synthesis o'r canlyniadau.)

Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag adolygiad cyflym dilynol â chanolbwynt a gyhoeddwyd fel: RR00028. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd ymyriadau/arloesiadau sy'n berthnasol i gyd-destun GIG Cymru i gefnogi recriwtio a chadw staff clinigol. Ebrill 2022. Mae'r adroddiad adolygu cyflym ar gael yn llyfrgell Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru: <https://ymchwiliachydagofalcymru.org/amdanom-ni-cymuned-ymchwil/canolfan-dystiolaeth-covid-19-cymru>

### Cefndir / Nod y Map Tystiolaeth Gyflym

Mae amseroedd aros y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers i COVID-19 ddod i'r amlwg. Mae **prinder gweithlu aciwt** yn y GIG ar hyn o bryd, sy'n llesteirio'r gallu i ymdrin **ag amseroedd aros cynyddol** a'r gwaith o glirio'r **ôl-groniad sy'n deillio o'r pandemig**. Bydd cynlluniau i gynyddu'r gweithlu, drwy **recriwtio staff newydd, cadw gweithlu clinigol presennol y GIG**, a gwneud dychwelyd i **ymarfer clinigol** yn fwy deniadol yn gofyn am nifer o ddulliau gweithredu. Nod yr REM hwn oedd **disgrifio graddau a natur y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer arloesiadau (gan gynnwys dychwelyd i ymarfer) a allai helpu i ddenu, recriwtio neu gadw staff clinigol y GIG**, er mwyn nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer adolygiad cyflym.

### Canfyddiadau Allweddol

*Hyd a lled y sylfaen dystiolaeth*

- Cynhwyswyd 35 o adolygiadau systematig neu gyflym, 11 adolygiad naratif, 7 adolygiad cwmpasu, 5 adolygiad o adolygiadau presennol (adolygiadau ambarél), 18 astudiaeth gynradd, a 5 adroddiad sefydliadol neu wefan.
- Cafodd y dystiolaeth ei chategoreiddio gan y ffenomena o ddiddordeb: dychwelyd i ymarfer; ffactorau sy'n dylanwadu ar recriwtio a/neu gadw staff; ac ymyriadau neu strategaethau ar gyfer gwella recriwtio a chadw staff
- Trefnwyd y dystiolaeth ar gyfer pob un o'r gwahanol grwpiau staff clinigol sy'n gweithio o fewn y GIG: nyrsys a bydwagedd; meddygon, gan gynnwys meddygon teulu; deintyddion; gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd; a grwpiau cymysg o weithwyr iechyd proffesiynol.

## Dychwelyd i ymarfer

*Hyd a lled y dystiolaeth sydd ar gael*

- Prin oedd y dystiolaeth eilaidd a oedd ar gael ar gyfer dychwelyd i ymarfer, a chynhaliwyd chwiliadau pellach ar gyfer astudiaethau sylfaenol.
- **Ar gyfer nyrsys a bydwagedd**, roedd dystiolaeth ar gael o adolygiadau cwmpasu (n=1) a systematig (n=1), astudiaethau cynradd (n=4), ac adroddiad sefydliadol.
- **Ar gyfer meddygon** (gan gynnwys meddygon teulu), roedd dystiolaeth ar gael o adolygiadau systematig (n=2) a naratif (n=1), gwefannau sefydliadol (n=2), ac astudiaethau sylfaenol (n=7).
- Nid oedd dystiolaeth ar gael ar gyfer dychwelyd i ymarfer ar gyfer **deintyddion**.
- **Ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechedd**, roedd dystiolaeth ar gael o astudiaethau sylfaenol (n=5) a gwefan sefydliadol.
- Ar gyfer **grwpiau cymysg o weithwyr gofal iechedd proffesiynol**, roedd dystiolaeth ar gael o astudiaeth systematig (n=1), astudiaeth sylfaenol, ac adroddiad sefydliadol.

*Crynodeb o'r cynnwys*

Ymchwiliwyd i ddychwelyd i ymarfer ar ôl gadael am amrywiaeth o resymau megis materion iechedd meddwl a chorfforol, anabledd, absenoldeb mamolaeth, cyfrifoldebau gofalu, cyfleoedd datblygiad personol neu broffesiynol, seibiant gyrfa, symud sectorau, ac ymddeoliad. Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithwyr gofal iechedd proffesiynol sy'n dymuno dychwelyd i ymarfer, yn enwedig o ran "pylu sgiliau". Mae nifer o lwybrau i weithwyr gofal iechedd proffesiynol ddychwelyd i ymarfer neu hyfforddiant, sydd wedi'u dogfennu'n dda. Fodd bynnag, mae data ar eu heffeithiolrwydd yn gyfyngedig.

## Ffactorau sy'n dylanwadu ar ddenu, recriwtio a chadw staff

*Hyd a lled y dystiolaeth sydd ar gael*

- Ar gyfer **nyrsys a bydwagedd**, roedd dystiolaeth ar gael o adolygiadau systematig (n=11 nyrsys, n=1 bydwagedd), naratif (n=2 nyrsys) ac adolygiadau cwmpasu (n=1 nyrsys).
- Ar gyfer **meddygon** (gan gynnwys meddygon teulu), roedd dystiolaeth ar gael o gwmpasu (n=2), systematig (n=5), cyflym (n=1), naratif (n=1), ac adolygiadau ambarél (n=1).
- Nid oedd dystiolaeth ar gael ar ffactorau sy'n dylanwadu ar ddenu, recriwtio a chadw **deintyddion**.
- **Ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechedd**, roedd dystiolaeth ar gael o adolygiadau systematig (n=3) a naratif (n=1).
- Ar gyfer **grwpiau cymysg o weithwyr gofal iechedd proffesiynol**, roedd dystiolaeth ar gael o adolygiadau systematig (n=3), cyflym (n=1), ac ambarél (n=1).

*Crynodeb o'r cynnwys*

Roedd yr adolygiadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd gwledig ac anghysbell. Nodwyd ystod eang o ffactorau, ac awgrymwyd bod angen i strategaethau i wella denu, recriwtio a chadw staff fod yn amlweddog.

## Ymyriadau ar gyfer gwella denu, recriwtio a chadw staff

*Hyd a lled y dystiolaeth sydd ar gael*

- **Ar gyfer nyrsys**, roedd dystiolaeth ar gael o adolygiadau ambarél (n=2), naratif (n=2), a chwmpasu (n=1); ni nodwyd unrhyw adolygiadau ar gyfer **bydwagedd**.
- Ar gyfer **meddygon** (gan gynnwys meddygon teulu), roedd dystiolaeth ar gael o adolygiadau cwmpasu (n=3), systematig (n=4), a naratif (n=1).
- Ar gyfer **deintyddion**, roedd dystiolaeth ar gael o un adolygiad systematig.
- **Ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechedd**, roedd dystiolaeth ar gael o adolygiad cwmpasu (n=1) a naratif (n=1).
- Ar gyfer **grwpiau cymysg o weithwyr gofal iechedd proffesiynol**, roedd dystiolaeth ar gael o adolygiadau cwmpasu (n=1), systematig (n=1), cyflym (n=1), naratif (n=3) ac ambarél (n=1).

*Crynodeb o'r cynnwys*

Roedd llawer o'r adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar ardaloedd gwledig ac anghysbell.

**Goblygiadau ar gyfer Adolygiad Cyflym**

Cynigiwyd tri dewis ar gyfer Adolygiad Cyflym dilynol â chanolbwynt a'u trafod mewn cyfarfod rhanddeiliaid (a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022): (1) adolygiad o astudiaethau sylfaenol sydd wedi gwerthuso cynlluniau dychwelyd i ymarfer; (2) adolygiad o adolygiadau o ffactorau sy'n dylanwadu ar gadw; (3) **adolygiad o adolygiadau o ymyriadau ar gyfer cefnogi recriwtio a chadw staff**. Penderfynwyd y byddai dewis 3 yn ddefnyddiol i lywio ymarfer.

**Gellir lawrlwytho fersiwn lawn o'r adroddiad hwn o lyfrgell WCEC:**

<https://ymchwiliachydogofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>